## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl ar Ddydd Mercher, 20fed Rhagfyr, 2000 am 10.00 a.m.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), J. Butterfield, M. Ll. Davies, P. Douglas, S. Drew (dirprwy ar ran J.R. Hughes), A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, J.R. Hughes (sylwedydd), N.J. Hughes, A.E.W. Jones (dirprwy ar ran D.W. Davies), N.H. Jones, P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, E.A. Owens, F. Shaw, J.A. Smith, W.G. Thomas, A.J. Tobin, W.R. Webb (dirprwy ar ran S. Thomas), K.E. Wells, C.H. Williams, E.W. Williams, P.O. Williams ac R. Ll. Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio (De), Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd) a Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr D.W. Davies, D.M. Holder, R.W. Hughes, G. Jones, K.P. Stevens ac S. Thomas.

### 868. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio, neu'i wrthod, yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2000/0750/PF | Codi gorsaf heddlu gyda pharcio cysylltiedig a newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau ar Dir oddi ar Ffordd y Graig, Dinbych, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar yr amodau diwygiedig canlynol rhif 2 a 3, dileu 7 ac 8 ac amodau newydd rhif 4, 8, 9 a 12: yn cynnwys ailrifo amodau ble mae angen<br>2. Mae'r defnydd sydd i'w ddefnyddio ar do'r adeiladau i fod yn deils Redland Cambrian tenau eu proffil, neu'n llechi naturiol.<br>3. Nid oes dim gwaith i'w ddechrau ar adeiladu wyneb unrhyw un o waliau'r prif adeilad neu'r garej hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch y math o garreg a'r uniadu morter, a'r rendr/gro chwipio y bwriedir eu defnyddio, mewn cysylltiad â pha beth y mae paneli enghreifftiol i'w codi ar y safle i'w harchwilio.<br>4. Mae'r gwaith cerrig a'r uniadu morter a gymeradwyir i'w ddefnyddio ar weddluniau'r prif adeilad sy'n wynebu'r gogledd-orllewin, y de-orllewin a'r de-ddwyrain.<br>RHESWM - i osgoi amheuaeth er mwyn amwynder gweledol.<br>(ailrifo'r amodau canlynol) |

8. Ac eithrio'r plannu gwrych ar hyd terfynau gorllewinol, gogleddol a dwyreiniol y safle, sydd i'w gynyddu i uchafswm lled o rhwng 3 - 4 metr, mae'r tirlunio/plannu i'w wneud yn unol â'r cynllun tirlunio diwygiad A a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar 11 Rhagfyr 2000 a'r fanyleb gyffredinol ar gyfer tirlunio a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar y 18 Rhagfyr 2000.
9. Mae'r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, walio neu driniaeth arall a gynhwysir ym manylion cymeradwyedig y tirlunio, yn cynnwys gosod y lle agored allan, i'w wneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl cwblhau'r datblygiad ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'w plannu yn marw, yn cael eu gwaredu neu'n cael eu difrodi neu eu heintio'n ddifrifol i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am eraill o faint a rhywogaeth debyg.
RHESWM - sicrhau bod y tirlunio/plannu yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol er mwyn amwynder gweledol.
12. Nid oes dim goleuadau diogelwch neu lifoleuadau i'w gosod o fewn y safle heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw ynghylch y manylion, yn cynnwys y math o golofnau, y system oleuo ac arddwysedd y golau.
RHESWM - er mwyn amwynder gweledol.
13. Nid yw safle'r ffens ddiogelwch 2.4m o uchder i fod fel y'i dangosir ar y cynllun tirlunio cyf: 1:200 11.12.00 A, a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar yr 11 Rhagfyr 2000, ond mae i fod yn unol â'r fath fanylion diwygiedig ag y gall gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac sy'n cael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn codi'r ffens.
RHESWM - er mwyn amwynder gweledol.

05/2000/1015/PO

(Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth New Development Consultants; D.E. Jones, Bradford House, Corwen ac E. Griffiths, Ysgrifennydd, Cronfa Pafiliwn Corwen).
Dymchwel adeiladau'r hen lyfrgell a'r ganolfan ieuenctid a chodi 3 uned fusnes (Defnydd Dosbarth B1) (cais amlinellol) yn yr hen Lyfrgell/Glwb Ieuenctid, Oddi ar Ffordd Llundain, Corwen, Sir Ddinbych.
Dymunai'r Cynghorydd W.R. Webb iddo gael ei nodi bod Siambr Fasnach Corwen o blaid y cynnig hwn.

08/2000/0844/PF

Addasu ty allan i ffurfio un annedd a gosod tanc carthion yn y Ty Allan yn Colomendy, Cynwyd, Corwen, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar yr amod diwygiedig canlynol rhif 3:-
3. Mae unrhyw agoriad(au) yn y wal ar hyn o bryd sydd i'w cau a'r/neu'r waliau/gwaith cerrig presennol sydd i'w hadfer yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd i'w wneud â defnyddiau sy'n cyd-fynd â'r rheini a ddefnyddiwyd ar y waliau presennol y maent yn ffurfio rhan ohonynt, o ran gwead, math, lliw, morter a phwyntiad, ac mae bodolaeth yr hen agoriadau i'w chadw drwy gilfachu wyneb croen allanol y darnau newydd o gerrig o 50mm o leiaf o linell bresennol y waliau allanol.

12/2000/0486/PF

(Datganodd y Cynghorydd E.W. Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried).
Newid defnydd uned fusnes a storfa yn siop a storfa yng Nghanolfan Cae Cymro, Clawddnewydd, Rhuthun, Sir Ddinbych.

23/2000/1009/PF

Newid defnydd arfaethedig yn yr hen sied magu ffesantod yn adeilad storio dodrefn (defnydd anadwerthol a dim storio allanol) yn Llanrhaeadr Hall, Llanrhaeadr, Dinbych, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar yr amod diwygiedig canlynol rhif 2:-

2. Nid oes dim defnyddiau, cynhyrchion, dodrefn neu rannau o ddodrefn i'w pentyrru neu eu storio ar y safle heblaw o fewn yr adeilad sy'n destun y cais.

24/2000/1007/PO

(Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth T. Hughes, Moelfa, Rhewl (2il lythyr); S. Peasley, Hafod, Rhewl (2il lythyr), a M.K. Jones ac A. Howatson-Jones, 19 Cilgwyn, Rhewl).
Datblygu 0.1hectar o dir drwy godi un annedd ddeulawr a llunio mynedfa newydd i gerbydau (cais amlinellol) ar Dir yn Gyfagos i'r Drovers Arms, Rhewl, Rhuthun, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar y nodyn newydd canlynol i'r ymgeisydd:-
1. Fe'ch cynghorir bod sylw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'i dynnu at fodolaeth hawddfreintiau cyfreithiol preifat a all gyfyngu'r hawl cysylltu â'r system ddraenio. Fe ddylech fod yn ymwybodol nad yw rhoi caniatâd cynllunio yn dirymu unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol preifat a all fodoli ar weithredu caniatâd.

43/2000/0949/PF

Gosod 1 Antena ar y mast presennol a chyfarpar cysylltiedig yng Ngorsaf Trosglwyddydd NTL, Gwaenysgor, Y Rhyl, Sir Ddinbych.

43/2000/1004/PF

Codi to serth yn lle to gwastad dros y siop yn 4 Ffordd yr Orsaf, Prestatyn, Sir Ddinbych.

44/2000/1052/PF

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Rhuddlan).
Newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau yn Fferm Bryngwyn, Ffordd Llanelwy, Rhuddlan, Y Rhyl, Sir Ddinbych.

46/2000/0803/PF

(Ar ôl ystyried pum llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Llanelwy; Pensaer Cadwraeth; Pennaeth Priffyrdd; Swyddog Priffyrdd a Choedwigaeth Cynulliad Cymru).
Yn dilyn cynnig ac wedi i'r nifer gofynnol o'r Aelodau ofyn am bleidlais gofnodedig, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio o blaid neu'n erbyn rhoi caniatâd cynllunio i godi 8 o dai ar eu pen eu hunain a newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau/cerddwyr ar dir yng Ngwesty'r Talardy Park, The Roe, Llanelwy, Sir Ddinbych.
<u>O Blaid y Cynnig (16)</u>
Y Cynghorwyr J. Butterfield, M. Ll. Davies, P. Douglas, K.N. Hawkins, N.J. Hughes, N.H. Jones, F.D. Jones, P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, F. Shaw, J.A. Smith, W.G. Thomas, A.J. Tobin, C.H. Williams ac E.W. Williams.
<u>Yn Erbyn y Cynnig (5)</u>
Y Cynghorwyr A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, P.O. Williams ac R. Ll. Williams.
<u>Wedi Atal ei Bleidlais(1)</u>
Y Cynghorydd A.E.W. Jones.
Felly ***PENDERFYNODD*** yr Aelodau ROI caniatâd cynllunio
YN AMODOL ar yr amodau diwygiedig a'r amodau ychwanegol canlynol rhi 6, 9, 12 ac 13, a nodiadau ychwanegol i'r ymgeisydd rhif 1, 2 a 3:-
6. Mae'r gwelliannau priffyrdd i'r A525 a mynedfa'r safle, yn cynnwys ffurfio lôn arafu; darparu'r ffordd fynediad i wasanaethu'r datblygiad (i lefel côt sylfaen o leiaf); a chau'r fynedfa bresennol fel y dangosir ar luniadau rhif 2422/100/RevA a 2422/SK06/RevA i'w cwblhau ac i fod ar gael i'w defnyddio cyn dechrau codi unrhyw un o'r anheddau a ganiateir drwy hyn. Mae'r gwelliannau i gynnwys mynedfa o hyd i Westy'r Talardy Park a'r Tudor Lodge. Nid oes neb i fyw yn annedd olaf y datblygiad hyd nes y bydd y gwelliannau i'r priffyrdd a'r ffordd fynediad a enwyd uchod wedi'u cwblhau i safonau mabwysiadu.

9. Mae’r holl gloddio a wneir o fewn lled corun y coed sydd i’w cadw fel rhan o’r datblygiad, yn cynnwys y 2 goeden bisgwydd gerllaw wal ddwyreiniol yr ardd i’w wneud â llaw ac nid oes dim gwreiddiau sy’n fwy na 50mm o gylchedd i’w torri.

12. Mae’r wal newydd rhwng yr Orendy a’r ffordd fynediad fel y’i dangosir ar luniad rhif 2422/SK06/A1 i’w chodi cyn i neb fyw yn unrhyw un o’r anheddau a ganiateir drwy hyn yn unol â manylion sydd i’w cyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’u cymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo cyn dechrau ar y datblygiad.

RHESWM - er lles lleoliad yr adeilad rhestredig cyfagos, yr Orendy.

13. Nid oes neb i fyw yn yr un annedd hyd nes y bydd y lle(oedd) parcio/garej a’r fynedfa ati wedi’u gosod allan/hadeiladu yn unol â’r cynlluniau a gymeradwywyd.

Nodiadau ychwanegol i’r ymgeisydd:-

1. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Atodol Rhif 1, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 amgaeëdig

2. Tynnir eich sylw at y ffurflen Rhan N amgaeëdig (Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Strydoedd 1991)

3. Tynnir eich sylw at y dogfennau amgaeëdig canlynol - Manyleb ar gyfer Adeiladu Ffordd, Nodiadau Cyffredinol ar gyfer Cyfarpar Goleuo Priffyrdd, a Gofynion Cyffredinol ar gyfer Arwyddion Traffig a Marciau Ffordd.

46/2000/1021/PF — Codi ystafell wydr yng nghefn y tŷ annedd (yn rhannol ôl-weithredol) yn Queensland House, The Roe, Llanelwy, Sir Ddinbych.

(ii) Caniatâd Adeilad Rhestredig (yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

| Rhif y Cais | Disgrifiad |
|---|---|
| 46/2000/0808/LB | Rhannol ddymchwel a newid wal bresennol yr ardd ar Dir yng Ngwesty‘r Talardy Park, The Roe, Llanelwy, Sir Ddinbych. |
| 46/2000/1069/LB | (Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy’n codi materion cynllunio nad ymdriniwyd â hwy eisoes yn yr adroddiad erbyn 29ain Rhagfyr, 2000).<br>(Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Llanelwy; Cymdeithas Henebion; Cyfreithwyr yn gweithredu ar ran y perchennog a’r Cynghorydd Andrew Thomas).<br>Dymchwel yr adeilad presennol yn Elwy Bank, Stryd Fawr, Llanelwy, Sir Ddinbych. |

(iii) Gwrthod

| Rhif y Cais | Disgrifiad |
|---|---|
| 43/2000/0900/PO | (Datganodd y Cynghorydd A.E.W. Jones ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried).<br>(Ar ôl ystyried cynllun lleoliad diwygiedig a gylchredwyd a thri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth yr Ymgeisydd; Cyngor Tref Prestatyn a Swyddog Coedwigaeth).<br>Datblygu 0.25 hectar o dir drwy godi 2 annedd a llunio mynedfa newydd i gerbydau (cais amlinellol) ar dir yn 74, y tu ôl i 76/78 Ffordd Gronant, Prestatyn, Sir Ddinbych.<br>Am y rhesymau diwygiedig canlynol rhif 1 a 2:-<br>1. Byddai datblygiad preswyl arfaethedig yr ardd gefn hon wedi’i gyfuno â chreu mynediad ychwanegol ar y tu blaen yn cynrychioli ffurf annerbyniol ar ddatblygu sy’n niweidiol i gymeriad a golwg y safle, golygfa’r stryd a’r cyffiniau ac amwynder preswyl preswylwyr tai |

cyfagos i'r gogledd a'r gorllewin a byddai'n gosod cynsail nas dymunir ar gyfer ffurfiau tebyg ar ddatblygu yn groes i Bolisi R2 Cynllun Lleol Bwrdeistref Rhuddlan, B5 y Cynllun Fframwaith a GEN7 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

2. Byddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar y goeden onnen gadwedig bresennol ar du blaen y safle ar gyfrif agosrwydd y fynedfa at y goeden a lled ei chorun gan achosi niwed i iechyd y goeden ac effeithio ar ei chyfraniad i amwynderau gweledol golygfa'r stryd. Yn ogystal ystyrir ei bod yn debygol y byddai effaith ar iechyd tymor hir, twf a'r amwynder a ddarperir gan y coed ar weddill y safle o ystyried agosrwydd yr anheddau i'r coed hyn.

Felly byddai'r cynnig yn groes i Bolisi L7 Cynllun Lleol Bwrdeistref Rhuddlan a Pholisi ENV7 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

Dymunai'r Cynghorydd N.H. Jones iddo gael ei nodi ei fod yn anghytuno â'r nifer yn pleidleisio i wrthod caniatâd ond cydnabu ei fod wedi'i gymeradwyo o fwyafrif.

Ataliodd y Cynghorydd P.O. Williams ei bleidlais.

*(b)* *er gwaethaf argymhelliad y Swyddogion bod y cais canlynol i'w WRTHOD am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad |
|---|---|
| 45/2000/1082/PF | (Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi materion cynllunio nad ymdriniwyd â hwy eisoes yn yr adroddiad erbyn 28ain Rhagfyr, 2000). |

(Ar ôl ystyried deg llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Y Rhyl; New Development Consultants; Pennaeth Priffyrdd; Cymdeithas Tai Clwyd Alyn; Partneriaeth Strategaeth Gymunedol, Station House, Stryd Bodfari, Y Rhyl; Cymdeithas Amgylchedd Y Rhyl; B.J. Lloyd, 18 Sussex Street, Y Rhyl; P. Mandler, 19 West Kinmel Street, Y Rhyl; Peter Jarvis, 39 West Kinmel Street, Y Rhyl a Chymdeithas Preswylwyr Canol Gorllewin Y Rhyl, 17A Abbey Street, Y Rhyl).

Yn dilyn cynnig i wrthod caniatâd cynllunio ac wedi i'r nifer gofynnol o'r Aelodau ofyn am bleidlais gofnodedig, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio o blaid neu yn erbyn argymhelliad y swyddogion i roi caniatâd cynllunio i godi 16 o anheddau, llunio mynedfa newydd i gerbydau a newid i weddlun y maes parcio presennol ar Safle Bel Market, West Kinmel Street, Y Rhyl, Sir Ddinbych.

O BLAID (i ganiatáu) (9)

Y Cynghorwyr M. Ll. Davies, K.N. Hawkins, N.H. Jones, F.D. Jones, R.E. Jones, J.A. Smith, E.W. Williams, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

YN ERBYN (i wrthod) (13)

Y Cynghorwyr J. Butterfield, P. Douglas, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, N.J. Hughes, A.E.W. Jones, P.M. Jones, R.J.R. Jones, F. Shaw, W.G. Thomas, A.J. Tobin a C.H. Williams.

Felly ***PENDERFYNODD*** yr Aelodau WRTHOD caniatâd cynllunio.

Gwnaed y penderfyniad hwn, a oedd yn GROES i argymhelliad Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, am y rhesymau canlynol:-

1. Byddai'r cynnig yn arwain at golli darpariaeth barcio sefydlog oddi ar y stryd yn groes i Bolisi T5 Cynllun Lleol Bwrdeistref Rhuddlan a Pholisi TRA9 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

2. Byddai'r cynnig yn brin o le agored digonol gan gymryd natur yr ardal i ystyriaeth ac yn arwain at dai teuluol dwysedd uchel ychwanegol mewn ardal ddifreintiedig sydd eisoes wedi'i gorddatblygu ac yn brin o leoedd agored a rhyddhad gweledol ac felly byddai'r cynnig yn arwain at amgylchedd byw gwael i breswylwyr yn y dyfodol

| | |
|---|---|
| | ac yn cyfyngu ymdrechion yn y dyfodol i ddarparu gwell amgylchedd byw.<br>(Argymhellodd y Pwyllgor ymhellach bod yr Aelod Arweiniol Priodol yn ymchwilio i ddefnydd a dosraniad y tir hwn ac yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar yr angen am ffordd strwythuredig o fynd ati i werthu a defnyddio tir yn yr ardal yma) |

*(c)* *bod y ceisiadau canlynol i'w gohirio am y rhesymau a roddir:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad</u> |
|---|---|
| 43/2000/1037/PO | (Ar ôl ystyried saith llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn; New Development Consultants; Dŵr Cymru; Samuel Leese, 56 Marine Drive East; Mr a Mrs E. Davies, 52 Marine Drive East; C.L. Franklin, 27 Warren Drive, Prestatyn; ac M. Arnold, 42 Marine Drive East).<br>Datblygu 2 hectar o dir ar gyfer preswyl (1.4hectar) a gwesty gyda chlwb hamdden (0.6hectar) (cais amlinellol) yn Kwik Save Group Plc. gynt, Warren Drive, Prestatyn, Sir Ddinbych.<br>RHESWM - gohirio i aros derbyn gwybodaeth bellach am lifogydd, effaith traffig a materion draeniad. |
| 45/2000/1019/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Fforwm Busnes Y Rhyl).<br>Newid defnydd o adwerthol gwag yn amgueddfa difyrion gweithiol o dras yn Uned F, Pentref y Plant, West Parade, Y Rhyl, Sir Ddinbych.<br>RHESWM - gohirio i ganiatáu egluro'r ffordd y bydd y defnydd arfaethedig yn gweithio o ran y math o wobrwyon sydd i'w hennill; defnydd tocins a'r angen am Drwydded Hapchwarae. |

*(ch)* *bod y cais canlynol i'w ohirio er mwyn gallu ymweld â'r safle am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad</u> |
|---|---|
| 45/2000/0916/PO | Datblygu 0.09 hectar o dir drwy godi 1 byngalo (cais amlinellol) ar dir y tu ôl i 70 Ffordd Dyserth, Y Rhyl, Sir Ddinbych.<br>RHESWM - ymweliad safle i asesu mynediad at y briffordd. |

**869. <u>DATBLYGIADAU TELATHREBU</u>**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

**870. <u>DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE</u>**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am sêl bendith i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem Rhif 2 ar yr Agenda sydd i'w cynnal ar ddydd Gwener, 5ed Ionawr, 2001 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd.

**871. <u>RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG</u>**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig ynghylch y ceisiadau am ganiatâd cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 11eg Tachwedd, 2000 a'r 1af Rhagfyr, 2000.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

**872. MATERION BRYS**

(i) Buddsoddwyr mewn Pobl

Cyhoeddodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio bod Gwasanaethau Cynllunio wedi llwyddo i ennill y Wobr "Buddsoddwyr mewn Pobl".

Cynigiodd Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd R. Ll. Williams ei longyfarchion ef a llongyfarchion y Cyngor i holl staff Gwasanaethau Cynllunio.

(ii) Chwarel Burley Hill, Maeshafn

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ddiweddariad ar y datblygiadau presennol a chynigiodd i'r Aelodau y cyfle o ymweld â'r safle ar 15fed Ionawr, 2001.

***PENDERFYNWYD*** *trefnu ymweliad safle â Chwarel Burley Hill ar gyfer bore'r 15fed Ionawr, 2001.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 p.m.

******************